



CROESO I GAERDYDD

Mae Caerdydd yn brifddinas yng ngwir ystyr y gair. Yn ifanc, yn amrywiol, yn tyfu'n gyflym ac yn fywiog, mae gan brifddinas Cymru enw da am ei chymuned fusnes gysylltiedig.

Mae Caerdydd yn ddinas dwt gyda'r holl amwynderau, atyniadau, gwestyau a lleoliadau

yn agos i'w gilydd. Mae wedi'i chysylltu'n dda gan reilffyrdd a ffyrdd ac mae'n cynnig teithiau hedfan cyfleus o lawer o gyrchfannau Ewropeaidd a byd-eang. Neuadd y Ddinas, Castell Caerdydd a Stadiwm Principality yw ychydig o'r lleoliadau nodedig yng nghanol y ddinas.

Dim ond 10 munud yw Bae Caerdydd ar drên, bws, bws dŵr neu dacsï o ganol y ddinas. Mae Canolfan Mileniwm Cymru, Senedd Cymru a'r Eglwys Norwyaidd hanesyddol yn edrych dros un o lannau dŵr mwyaf steilus Ewrop.



BETH GALLWN NI EI WNEUD I CHI?

Gall ein tîm profiadol eich helpu i gynllunio a darparu cefnogaeth i'ch digwyddiad busnes.

Cynigir gwasanaeth cymorth prydlon, proffesiynol a theilwra ar gyfer pob agwedd ar y cyfarfodydd, y gynhadledd, cymhelliant a busnes digwyddiadau mawr.




Mae bob gwasanaeth am ddim ac yn cynnwys:

- Canfod lleoliadau a datblygu profiad y cynrychiolydd
- Sicrhau'r cyfraddau a'r dyraniadau llety gorau
- Cyflwyniadau i gyflenwyr lleol a phecynnau gorau i gefnogi eich digwyddiad
- Cymorth i baratoi dogfennau a chyflwyniadau Cynnig
- Darparu deunyddiau marchnata i hyrwyddo Caerdydd ymhlith cynrychiolwyr y dyfodol
- Trefnu ymweliadau safle a chynghor ar deithiau rhithwir.
- Marchnata digwyddiadau, cysylltiadau cyhoeddus a chymorth cyfryngau cymdeithasol.
- Arbenigedd lleol a gwybodaeth am y diwydiant.

CAERDYDD - YN AGOSACH NAG Y CREDWCH

Awyr



Mae gan Faes Awyr Caerdydd deithiau hedfan uniongyrchol o dros 50 o gyrchfannau, cysylltiadau â 900 + o gyrchfannau ledled y byd a llwybrau at feysydd awyr hyb mawr. www.cardiff-airport.com

Lleolir Maes Awyr Caerdydd 12 milltir i'r gorllewin o ganol Dinas Caerdydd a 10 milltir o C33 ar yr M4. Mae T9, Gwasanaeth Bws Cyflym Maes Awyr Caerdydd, yn darparu teithiau mynych a chyfforddus rhwng Maes Awyr Caerdydd a chanol y ddinas. Gellir trefnu trosglwyddiadau preifat i Faes Awyr Caerdydd ac oddi yno gyda FlightLink Wales.

Ffordd



Mae Caerdydd ar yr A48/M4, gan gynnig llwybr uniongyrchol o Lundain. O ogledd Lloegr, canolbarth Lloegr a de orllewin Lloegr, mae'r M5 a'r M50 yn cysylltu â'r M4.

Mae priffordd yr M4 yn darparu cysylltiadau cyflym rhwng Caerdydd a gweddill y Deyrnas Gyfunol.

Gallwn hefyd gynnig manylion trafndiaeth gyhoeddus nôl a blaen i Gaerdydd yn ogystal ag o fewn Caerdydd a manylion cwmnïau hurio preifat.

Trên



Mae gan Gaerdydd gysylltiadau rheilffordd uniongyrchol â sawl dinas yn y Deyrnas Gyfunol, gan gynnwys Llundain, Birmingham, Manceinion, Nottingham, Bryste a Southampton.

Caerdydd yw'r brifddinas agosaf i Lundain; gyda thrydaneiddio prif linell de Cymru i Lundain gellir mynd o Paddington i Gaerdydd mewn llai na dwy awr ac mae trenau'n gadael bob 30 munud. Mae Gorsaf Ganolog Caerdydd wedi'i lleoli'n gyfleus yng nghanol y ddinas dim ond taith gerdded fer o'r rhan fwyaf o westyau, atyniadau, lleoliadau manwerthu a chynadledda. Caerdydd oedd un o'r gyrchfannau cyntaf i gynnig tocynnau trên GWR arbennig i gynadleddwyr.

GWYBODAETH AM GAERDYDD

Mae Caerdydd, prifddinas Cymru, yn cynnig amrywiaeth enfawr o atyniadau cyffrous, adloniant bywiog a siopa o safon, i gyd o fewn pellter cerdded. Mae pensaernïaeth arloesol yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd ag adeiladau hanesyddol ac mae Bae Caerdydd yn cynnig lleoliad trawiadol ar lan y dŵr ar gyfer digwyddiad.

Ymhlith yr uchafbwyntiau mae Canolfan Mileniwm Cymru eiconig a ysbrydolwyd gan dirwedd Cymru, Stadiwm Principality sydd wedi helpu i osod Caerdydd ar fap chwaraeon y byd a'r trysor yng nghoron y ddinas yw Castell Caerdydd, sy'n cynnig teithiau tywys drwy'r fflatiau Neo-Gothig Fictoraidd, cinio unigryw yn yr Ystafell Wleda a nosweithiau bythgofiadwy o letygarwch Cymreig ar ffurf Gwleddoedd Cymreig hwyliog ac anffurfiol.


Am wybodaeth am trafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys amserlenni bws a thrên ewch i traveline.cymru
For public transport information including bus and train timetables please visit traveline.cymru



Treftadaeth a Diwylliant

Gyda threftadaeth ddiddorol mae Caerdydd hefyd yn adnabyddus am ei diwylliant amrywiol a bywiog. Mae Caerdydd yn gartref i Theatr Genedlaethol Cymru, NoFit State Circus, Opera Cenedlaethol Cymru, Ffotogallery, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a Chanwr y Byd BBC Caerdydd.

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd sydd â'r casgliad mwyaf o baentiadau Argraffiadwyr Ffrengig y tu allan i Baris ynghyd â chasgliad helaeth o gelfyddyd fodern a chyfoes. Bob dwy flynedd dyma gartref arddangosfa a gwobr ryngwladol Artes Mundi. Y fenter ddiweddaraf yw Dinas Gerdd Caerdydd.



Caerdydd Creadigol


Os ydych yn angerddol dros gerddoriaeth a'r celfyddydau, mae gan Gaerdydd rai o'r lleoliadau harddaf sy'n cynnal digwyddiadau theatr, opera a cherddoriaeth fyw o'r radd flaenaf drwy gydol y flwyddyn. Rydym yn gosod diwylliant, creadigrwydd a blaengaredd wrth galon datblygiad y ddinas.

Mae Caerdydd wedi datblygu'n ganolbwynt sector y diwydiannau creadigol yng Nghymru, yn enwedig ym meysydd darlledu a chynhyrchu teledu a ffilm. Caiff nifer sylweddol o gwmnïau

creadigol eu denu i Gaerdydd oherwydd presenoldeb prif ddarlledwyr fel y BBC, S4C ac ITV ac oherwydd ei henw da am ragoriaeth academiaidd.

Ein Parciau

Mae Caerdydd yn ddinas o barcdir a mannau gwyrdd toreithiog ac mae ganddi dros 330 o barciau a gerddi. Mae'r ddinas a'i glannau yn darparu mannau gwyrdd agored i gynadleddwyr allu ailwefru a dadebru. Mae'r parc mwyaf a mwyaf enwog – Parc Bute - yn ymestyn ar draws canol y ddinas ac yn aml yn cynnal gwyliau a digwyddiadau mawr.





Ger y dŵr

Mae gan Gaerdydd lannau deniadol yn agos at arfordir ysblennydd, cefn gwlad hardd ac o fewn cyrraedd hawdd i'r Ddinas. Mae Teithiau Cwch Caerdydd yn cynnig gwasanaeth rheolaidd rhwng Bae Caerdydd a Chanol y Ddinas. Gellir cynnwys profiadau cyffrous i gynadleddwyr mewn rhaglen gynadledda i greu cymhellion, digwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau adeiladu tîm gwahanol a hwyliog. Un enghraifft yw Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd, sy'n cynnig anturiaethau dŵr gwyn gan gynnwys rafftio, canŵio slalom, syrffio dan do a chwrs rhaffau uchel uwchlaw'r dŵr.

Wedi'i uwchgysylltu

Caerdydd yw un o brif ddinasoedd uwchgysylltiedig y Deyrnas Gyfunol sy'n darparu band eang cyflym i fusnesau, Wi-Fi stryd am ddim, Wi-Fi am ddim mewn dros 150 o adeiladau cyhoeddus.

Blasu'n Lleol

Mae Caerdydd wrth ei bodd yn diddanu ac mae ein sîn bwyd yn ffynnu! O ddigwyddiadau dros dro i fwyd stryd i giniawa cain, mae cymaint o ddewis ar gael.

Mae'r ddinas yn cynnig teithiau bwyd, teithiau blasu, gweithdai coginio Cymraeg ac arddangosiadau. Neu rhowch gynnig ar daith o amgylch bragdai cwrw crefft Caerdydd neu ddistyllfa jin.



CAERDYDD GYSTADLEUOL

Daw dros 20 miliwn o ymwelwyr i Gaerdydd yn flynyddol, wedi'u denu gan dreftadaeth, diwylliant, adloniant a digwyddiadau o'r radd flaenaf yn y ddinas.

Yn ôl nifer o ffyn mesur Caerdydd yw'r ddinas sy'n tyfu gyflymaf yn y Deyrnas

Mae ein prifddinas yn gartref i dair prifysgol, nifer o sefydliadau diwylliannol a busnesau creadigol newydd; cwmnïau mawr, entrepreneuriaid ac arloeswyr gwych.

Mae ein llwyddiant wedi'i adeiladu ar ddull Tîm Caerdydd, lle mae'r sector cyhoeddus a phreifat yn dod at ei gilydd i gefnogi datblygiad y ddinas.

Gan elwa ar gysylltiadau eithriadol o gryf rhwng busnes, diwydiant a'r byd academiaidd, mae gan Gaerdydd gryfderau mewn amrywiaeth o sectorau diwydiant.



Digwyddiadau Chwaraeon

Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA

Tocynnau o Ffeinal Cynghrair Pencampwyr UEFA y Merched yn Stadiwm Dinas Caerdydd, 1 Mehefin 2017

Fe gynhaliwyd Rownd Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA y Dynion ddydd Sadwrn 3 Mehefin 2017 yn Stadiwm Cenedlaethol Cymru.


Caerdydd y ddinas leiaf, Cymru y wlad leiaf a Chymdeithas Bêl-droed Cymru oedd y Gymdeithas bêl-droed leiaf i gynnal y digwyddiad, gan groesawu 314,264 o gefnogwyr. Cafodd digwyddiad chwaraeon blynyddol mwyaf poblogaidd y byd ei ddarlledu mewn mwy na 200 o wledydd – amcangyfrifir y gwelwyd cynulleidfya gyfartalog fyd-eang o tua 165 miliwn a rhagamcanwyd cyrhaeddiad unigryw byd-eang o 380 miliwn o wylwyr.

Gwestyau: darparwyd amrywiaeth o lety yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Bryste.



Cam Caerdydd Ras Fôr Volvo 2018

Mwynhaodd dros 180,000 o ymwelwyr ŵyl bythefnos o hyd am ddim. Dechreuodd y ras hwylio ar draws y byd yn Alicante, Sbaen, ac ymwelodd y ras â 12 dinas, cyffwrdd â chwe chyfandir ac am y tro cyntaf yn ei hanes fe ymwelodd â Chaerdydd. Gallai ymwelwyr ddarganfod mwy am y ras heriol yn y canolfannau tîm a'r sinema, yn ogystal â mwynhau blas Cymreig go iawn gyda bwyd a diod lleol, ochr yn ochr â sesiynau cerddoriaeth fyw ar lan y dŵr. Roedd y digwyddiad hefyd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd a chynhaliodd Ras Fôr Volvo, mewn partneriaeth â noddwyr allweddol, yr Uwchgynhadledd y Cefnfor mawreddog i godi ymwybyddiaeth o broblem beryglus plastig yn y cefnforoedd.



Digwyddiadau Academaidd

Herio 'Troseddu' a 'Rheoli Troseddu' yn Ewrop Gyfoes oedd thema cynhadledd Cymdeithas Troseddeg Ewrop a gynhaliwyd gan Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd ac a feddiannodd y ddinas rhwng 13 ac 16 Medi.



Lleoliad: Profodd y Neuadd Dewi Sant arobryn â'i 1,956 o seddi yn lleoliad amlbwrpas, ychwanegol ochr yn ochr â Champws Cathays y Brifysgol. Cynhaliodd y Neuadd y Derbyniad Croeso, y Seremoni Wobrwy, sesiynau llawn y gynhadledd, sesiynau papurau, arddangosfa bosteri a Pharti Ffarwel gyda band a disgo â byw i thema vintage.

Ychwanegodd perfformiadau gan Gôr Meibion Parc yr Arfau Caerdydd flas Cymreig arbennig i'r digwyddiad gydag adloniant cerddorol a ddarparwyd hefyd gan delynor. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o sesiynau'r gynhadledd mewn tri adeilad prifysgol o fewn pellter cerdded hawdd i Neuadd Dewi Sant.

Gwesty: Trefnwyd llety gan Swyddfa Gynadleddau Caerdydd, gyda rhai cynrychiolwyr yn dewis aros yn y dewis eang o westyau yng nghanol y ddinas tra bod rhai mynychwyr yn ffafrio llety'r Brifysgol.

Digwyddiadau Diwylliannol


Roedd Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Gerddorfeydd Prydain 24 – 26 Ionawr 2018 yn gydweithrediad am y tro cyntaf ar raddfa gerddorfaol epig. Daeth Cerddorfa Genedlaethol y BBC a Chorws Cymru, Sinfonia Cymru a Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru oll ynghyd ar gyfer crynhoad mawr o dros 350 o fynychwyr.

“Mae Caerdydd yn lleoliad gwych i gael sgwrs am gydweithio artistig a diwylliannol – y cyhoeddwyd yn ddiweddar ei bod yn ‘Ddinas Gerdd’; mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i harneisio pŵer creadigol y ddinas drwy bolisi cerddoriaeth newydd a fydd yn sbarduno adfywio, a fydd o fudd i'r economi, i hybu twristiaeth ac i gryfhau cymunedau.”

Dyfyniad o'r neges groeso a gafodd sylw yn rhaglen gynadledda CGP.

Lleoliad: Neuadd Hoddinott y BBC, Canolfan Mileniwm Cymru

Gwesty: Trefnwyd y llety gan Swyddfa Gynadleddau Caerdydd, gan ddefnyddio Future Inns fel gwesty swyddogol y gynhadledd, a leolir ym Mae Caerdydd o fewn pellter cerdded i Ganolfan Mileniwm Cymru.



MAE GENNYM AMRYWIAETH O LEOLIADAU, O GESTYLL HANESYDDOL I WESTYAU GYDA'R DIWEDDARAF

Cipolwg ar le y gellid cynnal eich cynhadledd nesaf...





LLETY

Gwasanaeth archebu llety i gynadleddwyr

Gwnewch hi'n hawdd i gynadleddwyr archebu llety yng Nghaerdydd. Mae Swyddfa Gynadleddau Caerdydd yn cynnig gwasanaeth archebu llety ar-lein am ddim.

Byddwn yn trafod gyda gwestyau, fflatiau â gwasanaeth a sefydliadau academiaidd ar eich rhan, i sicrhau llety ar gyfraddau cystadleuol dros ben ar gyfer eich digwyddiad busnes nesaf.

Gallwn helpu drwy anfon negeseuon e-bost ymgyrchu yn uniongyrchol at yr holl gynadleddwyr sydd wedi archebu.



MAE CAERDYDD YN FFYNNU Â GWEITHGAREDDAU HWYLIOG, WAETH BETH FO'CH DIDDORDEBAU



Edrychwch ar ein llyfryn newydd sy'n rhoi syniadau newydd ar gyfer profiadau arbennig i gynadleddwyr sy'n mynychu digwyddiad busnes yng Nghaerdydd

- Bwyd a diod
- Anturiaethau a Gweithgareddau
- 'Addoniant'
- Creu lles i gynadleddwyr
- Pecynnau adloniant
- Diwylliant
- Gemau adeiladu tîm

[www.meetcardiff.com/
toolkit/knowledgehub/
delegateexperiences](http://www.meetcardiff.com/toolkit/knowledgehub/delegateexperiences)

CAERDYDD EICONIG

Dewch i weld safle mawreddog Stadiwm Principality, un o eiconau mwyaf trawiadol Cymru gyfoes. Ymunwch â'r tywyswyr teithiau profiadol ac ewch i Ystafell Gynadledda'r Wasg lle mae'r byd rygbi a newyddiaduraeth yn cyfarfod. Profwch yr awyrgylch cyn y gêm yn Ffau'r Ddraig, ystafell wisgo tîm Cymru. Clywch waedd 74,500 o gefnogwyr wrth i chi gerdded i lawr twnnel y chwaraewyr tuag at y cae chwedlonol. Dysgwch am yr unig do stadiwm sy'n agor yn llawn

yn y Deyrnas Gyfunol, sut y gellir tynnu'r cae chwarae cyfan allan er mwyn creu un o'r arenâu dan do mwyaf. Cewch weld y llain o ystafell letygarwch VIP ac, o'r diwedd, cewch godi'r tlws i'r awyr fel seren chwaraeon ym Mluch y Llywydd, ardal sydd fel arfer yn cael ei chadw ar gyfer aelodau o'r teulu brenhinol.

O Stadiwm Principality, ewch am dro byr i Gastell Caerdydd lle gallwch ddarganfod treftadaeth Caerdydd. Yn rhychwantu bron i 2,000 o flynyddoedd o hanes ac yn wreiddiol yn safle caer Rufeinig,

mae'r tiroedd heddiw yng nghysgod y Gorthwr Normanaidd dramatig. Bydd y daith dywys yn dadorchuddio'r tu mewn 'Gothig-Revival' yn Ystafelloedd y Castell a grëwyd ar gyfer Trydydd Ardalydd Bute gan y pensaer ecsentrig William Burges yn y 19eg ganrif.

Ar ôl ymweld â Chastell Caerdydd, ewch ar y daith hamddenol o Barc Bute yng nghanol y ddinas i Fae Caerdydd ar y Dywysoges Katharine, llong dan do â chyfarpar llawn, gyda lle i 90 o deithwyr dan ofal capteiniaid cymwys.

Ar ôl docio yng Nghei'r Fôr-forwyn, ewch ar y daith gerdded fer tuag at Forglawdd Bae Caerdydd a chymryd seibiant, mwynhewch goffi, tamaid i'w fwyta, neu de prynhawn yn yr Eglwys Norwyaidd, adeilad eiconig ar ymyl y dŵr a'r hen fan addoli ar gyfer morwyr Norwyaidd a'r eglwys lle y bedyddiwyd Roald Dahl.

Gallwch ddiweddu'ch diwrnod gydag ymweliad â Chanolfan Mileniwm Cymru lle gallwch fwynhau sioeau cerdd poblogaidd y West End, opera, ballet, dawnys gyfoes, hip hop a sioeau comedi stand-up.

AMGUEDDFEYDD, ARCEDAU A GWLEDDOEDD CYMREIG

Ymwelwch ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a adeiladwyd o garreg Portland

yng nghanol Canolfan Ddinesig Caerdydd, a chrwydro drwy arddangosfeydd trawiadol, gan gynnwys Esblygiad Cymru, taith lachar drwy'r 4,600 miliwn o flynyddoedd diwethaf, gan ddefnyddio roboteg ac effeithiau clyweledol. Peidiwch â cholli'r casgliad amhrisiadwy o baentiadau Argraffiadol ac ôl-Argraffiadol – y casgliad mwyaf y tu allan i Baris.

Nid yw arhosiad yng Nghaerdydd byth yn gyflawn heb brofi ei bleserau siopa. O ganolfannau siopa modern, sgleiniog i Arcedau Fictoriaidd neu Edwardaidd hardd

sy'n llawn siopau, caffis a bariau annibynnol.

Ar ôl tamaid o siopa ewch i'r ystafell de yn Eglwys Plwyf Sant Ioan y Bedyddiwr, lle gallwch fwynhau detholiad o luniaeth gan gynnwys cacennau cartref a brechdanau. Yr eglwys yw'r ail adeilad hynaf yng nghanol y ddinas, wedi'i leoli gyferbyn â marchnad dan do'r ddinas.

Wedi'i leoli wrth ymyl yr eglwys mae adeilad hardd a hanesyddol yr Hen Lyfrgell sy'n gartref i Amgueddfa Stori Caerdydd. Mae'r amgueddfa'n adrodd hanes



trawsnewid Caerdydd o dref farchnad fechan yn y 1300au i un o borthladdoedd mwyaf y byd yn y 1900au i'r brifddinas cwl cosmopolitan rydym yn ei hadnabod heddiw.

Dewch â'ch ymweliad â Chaerdydd i ben gyda noson o fwyd ac adloniant da yng ngwleddoedd Cymreig Castell Caerdydd. Mae'r wledd yn noson hamddenol a difyr yn amgylchoedd hanesyddol Castell Caerdydd. Yn dyddio o'r 15fed Ganrif, mae'r Is-grofft yn un o rannau hynaf y Castell ac yma gallwch fwynhau'r gorau o fwyd, adloniant a'r croeso cynhesaf gan eich gwesteiywyr, y Nosweithiau Bute-iffwl.

Wedi'u gwisgo mewn gwisg draddodiadol Gymreig, bydd eich gwesteiywyr yn gweini medd Cymreig a chinio tri chwrs tra'n eich diddanu gyda detholiad o ganeuon Cymraeg a Saesneg. Dyma'r lleoliad perffaith ar gyfer noson allan gofiadwy.

TREFTADAETH

Dechreuwch eich diwrnod gydag ymweliad â thaith o amgylch Eglwys Gadeiriol hardd Llandaf sydd wedi'i lleoli mewn encil y tu hwnt i brysurdeb dinas Caerdydd, mewn pant bach ddiarffordd wrth ymyl Afon Taf. Saif y Gadeirlan yn yr hen "Ddinas Llandaf" y mae llawer ohoni bellach yn ardal gadwraeth.

O Eglwys Gadeiriol Llandaf,



teithiwch bellter byr i'ch cyrchfan nesaf sef Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan. O fewn can erw o gefn gwlad deniadol, crëwyd lle hudolus. Mae anheddau go iawn o wahanol gyfnodau yn hanes Cymru yn cyd-fynd ag arddangosfeydd diddorol sy'n dangos hanes a diwylliant Cymru. Wedi'i leoli 4 milltir i'r gorllewin o Gaerdydd, gall ymwelwyr archwilio'r adeiladau sy'n amrywio o'r pentref Celtaidd 2,000 oed i

blasty Elizabethaidd trawiadol. Manteisio ar y cyfle i weld crochenydd, gwehydd, turniwr pren, pobydd, barcer crwyn a llawer mwy o grefftwyr wrth eu gwaith.

I gwblhau'r diwrnod, ewch draw i Brofiad y Bathdy Brenhinol sydd ond 30 munud o Gaerdydd. Yma gallwch gael mynediad digynsail i'r Bathdy Brenhinol i ddarganfod y bobl a'r digwyddiadau y tu ôl i'r darnau arian yn eich poced.

CWRDD YNG NGHAERDYDD

Rydym yn caru Caerdydd ac am ei rhannu â chi. Byddwn yn eich helpu i'ch tywys i'r lleoliadau sydd fwyaf addas i'ch cynhadledd, cyfarfod neu ddigwyddiad - ac ni fyddwn yn codi tâl arnoch am y gwasanaeth.



Cynhyrchwyd gan Cwrdd yng
Nghaerdydd 2021
hello@meetincardiff.com
Ffôn: 02920 871846

www.cwrddcaerdydd.com
www.croesocaerdydd.com

@CwrddCaerdydd
#CwrddCaerdydd



Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Cwrdd yng Nghaerdydd i ddarparu gwybodaeth wedi'i theilwra am Gaerdydd fel cyrchfan digwyddiadau busnes. Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i gynhyrchu dogfen gyfredol, gall y wybodaeth a ddarperir yn y ddogfen hon newid.